Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Rheoliadau Deddf Ynni 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024

Mehefin 2024

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Gosododd Llywodraeth y DU ddrafft o Reoliadau Deddf Ynni 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024[1] (y Rheoliadau) gerbron Senedd y DU ar 13 Mai 2024.

**2.** Mae Rheol Sefydlog 30A yn datgan bod rhaid i aelod o'r llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol, neu offeryn statudol drafft, y bydd Gweinidogion y DU yn ei osod gerbron Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**3.** Ar 14 Mai 2024, gosododd Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd (y Memorandwm)[2] ar gyfer y Rheoliadau, yn unol â Rheol Sefydlog 30A.

**4.** Ar 21 Mai 2024, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet atom i roi gwybod i ni am y Memorandwm.[3]

**5.** Ar 22 Mai 2024, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf 2024. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd Arweinydd Tŷ'r Cyffredin y byddai Senedd y DU yn cael ei diddymu ar 24 Mai 2024.[4]

**6.** Ar 24 Mai 2024, cymeradwywyd y Rheoliadau drafft gan Senedd y DU[5], a chawsant eu deddfu wedi hynny.[6]

# 2. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

**7.** Mae Rhan 5 o *Ddeddf Ynni 2023* (Deddf 2023) yn darparu ar gyfer sefydlu Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni [y cyfeirir ato fel 'National Energy System Operator' neu 'NESO' yn Saesneg], sef corfforaeth gyhoeddus annibynnol

[1] Reoliadau Deddf Ynni 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024 (drafft)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol: Rheoliadau Deddf Ynni (Cymru) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024, 14 Mai 2024
[3] Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 21 Mai 2024
[4] Trafodion Tŷ'r Cyffredin 22 Mai 2024, Cyfrol 750, Colofn 991
[5] Trafodion Tŷ'r Cyffredin 24 Mai 2024, Cyfrol 750, Colofn 1163
[6] Reoliadau Deddf Ynni 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024

sy'n gyfrifol am gynllunio rhwydweithiau trydan a nwy Prydain a gweithredu'r system drydan.

**8.** Mae creu Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni, a rhoi ei drwyddedau, yn golygu bod angen gwneud diwygiadau canlyniadol i ddiweddaru cyfeiriadau mewn deddfwriaeth at ddeiliaid trwyddedau nwy a thrydan.

**9.** Mae'r Rheoliadau yn gwneud y diwygiadau canlyniadol gofynnol, gan gynwys diwygiad i adran 6 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* (Deddf 2016). Ar hyn o bryd, mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn gosod dyletswydd bioamrywiaeth ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys ymgymerwyr statudol sy'n cynnwys “trawsgludwr nwy (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986)”. O ganlyniad i sefydlu Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni, a'r fframwaith trwyddedu gwahanol sy'n gymwys bellach, mae Rheoliad 22 yn newid y cyfeiriad hwn i roi yn ei le “deiliad trwydded o dan adran 7 neu 7AA o Ddeddf Nwy 1986”.[7]

**10.** Ym mharagraff 9 o'r Memorandwm, mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod Rheoliad 22 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**11.** Ym mharagraffau 10 ac 11 o'r Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn esbonio pam y mae’n briodol i'r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon yn ei farn ef:

> *“... dyna'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i wneud y darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru. Nid yw'r newid yn gynhennus na thechnegol ei natur ac mae'n gwneud un newid canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol gyda'r nod o egluro pa rai o bwerau, hawliau a dyletswyddau ESO’r Grid Cenedlaethol a National Gas Transmission y bydd NESO yn eu hetifeddu neu ddim yn eu hetifeddu fel y gellir dechrau'r trefniadau ar gyfer NESO.*
>
> *Mae'r UKSI hwn yn cael ei wneud o dan adran 330 o Ddeddf Ynni 2023 sy'n bwerau nad oedd Senedd Cymru wedi cydsynio iddynt. Er hynny, nawr bod y darpariaethau hyn ar y llyfr statud rydym wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cael eu harfer mewn ffordd gyfrifol.”*

[7] Rheoliadau Deddf Ynni 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024, rheoliad 22

**12.** Mae’r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn nodi ym mharagraff 12 o'r Memorandwm y byddai angen cydsyniad Gweinidog y Goron pe bai darpariaeth o'r fath yn cael ei chynnwys mewn Bil gan y Senedd:

> *“Mae'r diwygiad a gynhwysir yn y Rheoliadau yn cael ei wneud mewn perthynas ag ymgymerwyr statudol yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n awdurdodau a gadwyd yn ôl a phe bai'r newid yn cael ei weithredu gan Fil Senedd Cymru byddai gofyn i Weinidog y Goron gydsynio iddo. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio pŵer Ysgrifennydd Gwladol yn unig sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf Ynni. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer cyfatebol yn y Ddeddf honno i wneud y newid.“*

# 3. Ystyriaeth y Pwyllgor

**13.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 3 Mehefin 2024.[8]

## Ein barn ni

**14.** Rydym yn nodi'r Memorandwm a’r ffaith nad oedd amser i gynnal dadl cydsyniad o ganlyniad i gyhoeddi etholiad cyffredinol yn y DU.

**15.** Fodd bynnag, hoffem godi un mater. Rydym yn nodi, fel y dywed yr Ysgrifennydd. Cabinet, y byddai angen cydsyniad Gweinidog y Goron pe bai’r ddarpariaeth a wneir yn y Memorandwm yn cael ei chynnwys mewn Bil gan y Senedd. Felly, credwn y dylai Llywodraeth Cymru egluro ei dehongliad o Reol Sefydlog 30A, gan gynnwys a yw'n credu bod y Rheol Sefydlog hon yn cwmpasu darpariaethau na chaniateir i’r Senedd ond eu pasio â chydsyniad un o Weinidogion y Goron.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro’r canlynol:

- ei dehongliad o “o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd” yn Rheol Sefydlog 30A;
- sut y mae ei dehongliad o Reol Sefydlog 30A yn cymharu â'i dehongliad o’r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 29, sef “at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd”;

[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 3 Mehefin 2024

- a yw'n credu bod newid swyddogaethau awdurdod a gadwyd yn ôl heb gydsyniad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol at ddibenion Rheol Sefydlog 30A;
- i ba raddau y mae'n dibynnu ar yr eithriad yn Rheolau Sefydlog 29 a 30 ynghylch "darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd".